Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu** |
| **Dyddiad:** | **17 Chwefror 2011** |
| **Gan:** | **Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol** |

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod y byddaf heddiw yn cyhoeddi Papur ar ddyfodol gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'n gyfnod o her i'r holl wasanaethau cyhoeddus. Mae'r newid yn natur y gymdeithas yng Nghymru, y newid demograffig a'r disgwyliadau newydd ymhlith y bobl hynny sy'n derbyn gwasanaethau – ynghyd â'r hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni – oll yn golygu bod yna bwysau nas gwelwyd erioed o'r blaen ar wasanaethau cymdeithasol.

Ceir yn y Papur fframwaith i fynd i'r afael â'r her honno. Ein bwriad yw ail-lunio gwasanaethau cymdeithasol a chanolbwyntio ar ein hanghenion ni heddiw er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod gadarn a'u bod yn dal i ddiwallu anghenion a dyheadau unigolion.

Amgaeaf gopi o'r Papur a fydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru

http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?lang=cy

o 11.00am ymlaen ynghyd â'r datganiad i'r wasg.

Byddaf hefyd yn gwneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Mawrth 2011.